Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

recruitment@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

# Pecyn Recriwtio
# **Aelodau Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd**

Dau swydd wag
Tâl - £270 y dydd ynghyd â threuliau, tua 4 cyfarfod y flwyddyn



recruitment@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales/cym



# Amdanom ni

Mae Cymru'n falch i arwain y ffordd gyda **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** - cyfraith arloesol sy'n gwarchod ein hamgylchedd, sy'n cefnogi pobl heddiw, ac sy'n diogelu buddiannau cenedlaethau i ddod.

Mae ein nodau llesiant a'n dulliau o weithio yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus wneud **penderfyniadau cydgysylltiedig, hirdymor,** ac rydyn ni yma i'w helpu i lwyddo. Gyda'n gilydd, ein nod yw creu Cymru lle gall pawb fyw bywydau gwell tra'n gadael ar ein hôl blaned y gall cenedlaethau'r dyfodol ffynnu arni.

Mae'r ddeddfwriaeth hon eisoes wedi sbarduno newidiadau o bwys: strategaeth drafnidiaeth wyrddach, cwricwlwm blaengar, a diffiniad newydd o ffyniant. Ond mae mwy i'w wneud. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws sectorau i ddod o hyd i'r dulliau gorau o gyflymu newid.

Mae yna fudiad cyffrous, cynyddol o bobl sy'n credu mewn gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Maent yn beiddio cyflawni mewn ffyrdd gwahanol o fewn eu sefydliadau a thu hwnt, yn aml yn erbyn cefndir o ansicrwydd gwleidyddol a phwysau ariannol.

**A fedrwch chi ymuno â'r mudiad hwnnw a'n helpu i ddiogelu dyfodol Cymru?**



recruitment@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales/cym



# Rôl ein Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC)

Rydym yn chwilio am ddau aelod newydd i ymuno â'n Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd erbyn mis Ebrill 2026. Mae'r Pwyllgor yn darparu sicrwydd a chyngor annibynnol i'r Comisiynydd ar lywodraethu, risg a rheolaeth o fewn y Swyddfa.

Mae ein ARAC yn ymdrechu i fodelu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth y mae'n ei wneud ac yn ei berthynas â Swyddfa'r Comisiynydd.

**Diben y Pwyllgor**

- Cynghori ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu.
- Adolygu polisïau cyfrifyddu, cyfrifon blynyddol a'r adroddiad blynyddol, gan gynnwys canfyddiadau archwilio a llythyr cynrychiolaeth y Comisiynydd.
- Arolygu gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol.
- Ystyried cynigion ar gyfer tendro gwasanaethau archwilio mewnol neu brynu gwasanaethau nad ydynt yn rhan o archwiliad gan ddarparwyr archwilio.
- Monitro polisïau gwrth-dwyll, chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.
- Adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd ac adrodd ar ganfyddiadau i'r Comisiynydd.

**Tymor**: Penodir aelodau am **bedair blynedd**, gyda'r posibilrwydd o gael eu hailbenodi am bedair blynedd arall.

**Tâl**: Cyfradd ddyddiol wedi ei bennu gan y Comisiynydd, ynghyd â chostau cysylltiedig teithio a chynhaliaeth yn unol â pholisi.

**Ymrwymiad**: Pedwar cyfarfod y flwyddyn (dau ar-lein a dau wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd), ynghyd ag o leiaf ½ diwrnod o baratoi ar gyfer pob cyfarfod. Cefnogir yn llwyr gyfranogiad o bell.

recruitment@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales/cym



## Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Ar draws y ddwy rôl, rydym yn chwilio am arbenigedd penodol mewn:

- **Technoleg ddigidol**
- **Cyllid**

Os yr ydych chi'n teimlo'n angerddol am ddatrysiadau arloesol i ddatblygu cynaliadwy, byddem wrth ein bodd i glywed oddi wrthych! Efallai bod gennych brofiad mewn llywodraeth, sefydliadau rhynglywodraethol, y sector preifat, neu gymdeithas sifil.

Byddwch yn:

- Deall neu'n awyddus i ddysgu am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**
- Gweithredu fel llysgennad i'r sefydliad.
- Rhannu eich barn mewn dull adeiladol - hyd yn oed pan fyddant yn wahanol.
- Gweld y darlun mawr, gweithredu gyda gonestrwydd, a modelu ymddygiadau cynhwysol.
- Cyflawni'r dyletswyddau a'r safonau a ddisgwylir gan aelod pwyllgor mewn sefydliad dielw sy'n canolbwyntio ar wella llesiant y boblogaeth.

## Sgiliau hanfodol

- Persbectif eang ar faterion cyfoes yng Nghymru a'r DU ehangach.
- Dealltwriaeth gref o faterion ariannol, archwilio, rheoli a rheoli risg.
- Y gallu i wrando, cyfathrebu a dylanwadu'n effeithiol.
- Chwaraewr tîm cydweithredol gyda sgiliau cryf i adeiladu perthynas ag eraill.
- Gallu dadansoddol a barn annibynnol gadarn.
- Diddordeb yn y ffordd y mae'r Ddeddf Llesiant yn llunio gwasanaethau cyhoeddus a pholisi yng Nghymru.

## Profiad a phersbectifau dymunol

Rydym yn cydnabod bod mewnwelediad gwerthfawr yn dod o sawl math o brofiad, nid yn unig o rolau proffesiynol ffurfiol.

Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl a all ddod â phrofiad byw a phersbectifau a fydd yn ein helpu i ddeall y cymunedau a wasanaethwn yn well.

recruitment@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales/cym



Yn benodol, byddem yn gwerthfawrogi:

- **Profiad byw o anghydraddoldeb neu anfantais**, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) brofiadau sy'n ymwneud ag ethnigrwydd, anabledd, rhywedd, rhywioldeb, cefndir economaidd-gymdeithasol, neu gyfrifoldebau gofalu.
- **Ymgyfraniad cymunedol neu wirfoddol** sy'n dangos dealltwriaeth o'r modd y mae penderfyniadau sefydliadol yn effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd.
- **Profiad o lywio gwasanaethau cyhoeddus** neu gefnogi eraill i wneud hynny, gan gynnig mewnwelediad i risgiau, rhwystrau a chyfleoedd i wella.
- **Persbectifau a luniwyd y tu allan i lwybrau archwilio, cyllid neu lywodraethu traddodiadol**, fel gwaith yn y sector elusennol, sefydliadau llawr gwlad, busnesau bach neu arweinyddiaeth gymunedol leol.
- **Hyder i gwestiynu rhagdybiaethau** a dod â her adeiladol yn seiliedig ar brofiad personol yn ogystal â barn broffesiynol.

## Pwysigrwydd amrywiaeth

Nid yw ein ARAC presennol yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru. **Rydym yn arbennig o awyddus i newid hyn** ac yn annog o ddifri, geisiadau gan:

- Bobl o gefndiroedd amrywiol o ran hil
- Pobl anabl
- Pobl iau - Mae cynrychiolaeth sy'n pontio cenedlaethau'n hanfodol i ni. Os rydych chi ar ddechrau neu yng nghanol eich gyrfa ac yn pendroni a yw rôl fel hon yn rhy gynnar i chi, rydym yn eich annog i wneud cais! Mae eich llais yn bwysig, a safbwyntiau o bob grŵp oedran yn helpu i lunio ein gwaith a'i gryfhau.

recruitment@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales/cym



# Sut i ymgeisio

**Anfonwch eich CV, ynghyd â nodyn eglurhaol a'ch Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i chwblhau at recruitment@futuregenerations.wales.**

Os hoffech gyflwyno fideo byr yn dweud wrthym amdanoch chi eich hun, eich sgiliau a'ch profiadau, defnyddiwch 'We Transfer' ac anfonwch eich dolen atom.

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**: 22ain Ionawr 2026
- **Didoli ceisiadau**: Dechrau Chwefror 2026
- **Dyddiad y cyfweliad**: 11eg Mawrth 2026
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau o gwbl am y rôl hon a sut y gallai weithio, cysylltwch â Helen Nelson ar helen.nelson@cenedlaethaurdyfodol.cymru
    - (*Sylwch na fyddwn yn gallu ateb ymholiadau o ddydd Gwener 19 Rhagfyr tan ddydd Llun 5 Ionawr oherwydd bod ein swyddfa ar gau dros wyliau'r Nadolig.)*
- Gwneir **penodiadau** gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Derek Walker.
- Cynhelir y **sesiwn sefydlu** yn ystod mis Mawrth.
- Bydd eich cyfarfod ARAC cyntaf yn cael ei gynnal dros ddau ddiwrnod o 29ain Ebrill (pm) tan amser cinio ar 30ain Ebrill. Cynhelir y cyfarfod yn Tramshed Tech Caerdydd gyda chostau teithio a chynhaliaeth yn cael eu talu yn unol â pholisi. Trefnir llety dros nos, os bydd ei angen, gan y Swyddfa.